



Cronfa Bensiwn
GWYNEDD
Pension Fund



Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol

Aberthu Cyflog – Buddion Staff

Sut yr effeithir ar eich buddion pensiwn?

Cyflwyniad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio sut mae eich buddion pensiwn o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn cael eu heffeithio gan gynlluniau Aberthu Cyflog.

Beth yw Aberthu Cyflog?

Mae aberthu cyflog yn golygu eich bod yn cytuno i ildio rhywfaint o'ch cyflog yn gyfnewid am y buddion rydych wedi'i ddewis, gan eich bod wedi cytuno i ostwng eich cyflog, mae swm y dreth a'r yswiriant gwladol a dalwch yn cael ei leihau a'ch bod yn gwneud arbediad. Mae rhai o'r cynlluniau hefyd yn effeithio ar y cyflog y cyfrifir eich pensiwn arno.

Mathau gwahanol o Aberthu Cyflog

Cynllun Aberthu Cyflog	Yw fy Mhensiwn yn cael ei effeithio?
Beicio i'r Gwaith	NA
Talebau Gofal Plant	NA
Cost a Rennir CGY	NA
Car Gwyrdd	YDY
Prynu Gwyliau Blynnyddol Ychwanegol	YDY

Sut bydd y Cynllun Aberthu Cyflog Car Gwyrdd/ Gwyliau Blynnyddol Ychwanegol yn effeithio ar fy mhensiwn?

Y tâl a ddefnyddir i gyfrifo'ch buddion pensiwn fydd y tâl ar ôl y swm a aberthwyd ac felly byddwch yn cronni llai o bensiwn am hyd y cytundeb. Ers Ebrill 2014, mae eich pensiwn o dan y cynllun **Cyfartaledd Cyflog**

Gyfra wedi'i Adbrisio (y cynllun **CARE**) yn seiliedig ar eich tâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill i 31 Mawrth, dangosir enghraifft o'r effaith ar yr adran hon o'ch buddion pensiwn isod:

Cyflog Blynnyddol	Swm Blynnyddol a Aberthwyd	Pensiwn CARE a gronnwyd yn ystod y flwyddyn* (cyflog blynnyddol is wedi'i rannu a 49)
£25,000	Dim	£510.20
£25,000	£3,000	£448.96

***Mae pob £1,000 o gyflog a aberthir yn golygu colled o £20.41 pensiwn CARE**

**Gan dybio eich bod ym Mhrif Adran y CPLIL ac nid yr adran 50/50.*

Os oeddech yn aelod o'r CPLIL cyn Ebrill 2014 yna bydd gennych fuddion hefyd yn **adran Cyflog Terfynol** y cynllun. Fel arfer, y tâl terfynol a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo'r buddion hyn yw eich tâl yn y 365 diwrnod cyn gadael, ac os ydych wedi bod yn cymryd rhan yn y Cynllun Aberthu Cyflog yn y flwyddyn y byddwch yn gadael neu'n ymddeol yna'r tâl ar ôl y swm a aberthir a ddefnyddir, a bydd eich buddion cyflog terfynol hefyd yn cael eu heffeithio. Fodd bynnag, o dan Rheoliadau'r CPLIL bydd gennych yr opsiwn i seilio eich **buddion Cyflog Terfynol** ar unrhyw un o gyflog pensiynadwy'r tair blynedd diwethaf (os yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf).

Sut bydd y Cynllun Aberthu Cyflog Car Gwyrdd/ Gwyliau Blynnyddol Ychwanegol yn effeithio ar fy Muddion Marwolaeth?

Os bydd marwolaeth yn digwydd tra bod aberth cyflog yn ei le, yna bydd y tâl ar ôl didyniad yr aberth cyflog yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r buddion marwolaeth sy'n daladwy os byddwch yn marw, a byddai'r grant marwolaeth a'r buddion dibynnyddion sy'n daladwy hefyd yn seiliedig ar y ffigyrau CARE a Thâl Terfynol is.

A allaf dalu'r pensiwn a gollwyd?

Mae'n bosibl prynu'r pensiwn a gollwyd yn ôl trwy gontract Cyfraniad Pensiwn Ychwanegol (CPY). Bydd angen i chi ofyn i'ch cyflogwr os ydynt yn fodlon *rhannu'r gost o brynu'r pensiwn coll yn ôl.

***DIM ond** ar gyfer prynu gwyliau blynyddol ychwanegol y mae opsiwn i rannu'r gost ar gael.

Bydd eich Cyflogwr yn rhoi eich ffigur **tâl pensiynadwy coll** i chi, y bydd ei angen arnoch wrth ddefnyddio **Cyfrifiannell CPY** ar-lein i gyfrifo cost prynu'ch pensiwn a gollwyd yn ôl:

[Buy lost pension calculator :: LGPS \(lgpsmember.org\)](http://lgpsmember.org)

Os byddwch yn ethol i dalu CPY i brynu swm pensiwn blynyddol ychwanegol, a fyddai wedyn yn cwmparu'r golled i'ch pensiwn blynyddol. Ar 1 Ebrill 2014, rhoddwyd cap o £6,500 y flwyddyn er mwyn cyfyngu faint o bensiwn blynyddol y gallwch ei brynu yn y CPLIL. Mae'r cap hwn wedi cynyddu gyda chwyddiant bob blwyddyn ers hynny. Dangosir y cap cyfredol ar y cyfrifiannell CPY ar-lein. **Dychwelwch y ffurflen a gynhyrchir gan y cyfrifiannell i'ch adran gyflogres cyn gynted â phosibl.**

Os **NAD** yw'ch cyflogwr yn fodlon rhannu'r gost o brynu'r pensiwn coll yn ôl, bydd angen i chi **ddewis** **[Buy extra pension calculator :: LGPS \(lgpsmember.org\)](http://lgpsmember.org)**. Chi fydd yn gyfrifol am y gost gyfan. (Defnyddiwch yr opsiwn hwn os ydych yn dymuno prynu'r pensiwn coll ar gyfer aberthu cyflog Car Gwyrdd).

Os ydych chi'n defnyddio'r cyfrifiannell **Prynu Bensiwn Ychwanegol**, anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi atom.

Mae gennych yr opsiwn i brynu pensiwn coll yn ôl fel cyfandaliad untro (wedi'i ddidynnu o'ch cyflog) neu'n fisol dros gyfnod o **12 mis** o leiaf. Os ydych yn dymuno talu'n fisol, y bydd gofyn i chi gwblhau ffurflen er mwyn ardystio eich bod mewn iechyd eithaf da.

Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn Gwynedd:

Ffôn: 01286 679982

E-bost: pensiynau@gwynedd.llyw.cymru

Ymwadiad

Nid yw'r Gronfa Bensiwn yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: <https://unbiased.co.uk/>

Helpwr Arian: [Choosing a financial adviser \(moneyhelper.org.uk\)](https://moneyhelper.org.uk/)